**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llyr Gruffydd AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a'r Seilwaith

10 Mai 2022

Annwyl Llyr,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 22 Mawrth 2022 a oedd yn cynnwys copi eich Pwyllgor o 'Adroddiad Blynyddol ar Cyfoeth Naturiol Cymru' gan gofyn am ymateb ffurfiol ar eich argymhellion.

Yn gyntaf, hoffwn ddiolch i chi a'r Pwyllgor am baratoi'r adroddiad cynhwysfawr hwn a rhoi'r cyfle imi ymateb. Fel prif gynghorydd Llywodraeth Cymru ar faterion sy'n ymwneud ag adnoddau naturiol Cymru, mae'n hanfodol bod Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a Gweinidogion yn cael eu dwyn i gyfrif wrth arfer eu swyddogaethau deddfwriaethol. Gwnaeth eich adroddiad wyth argymhelliad gyda thri o'r rheini'n gofyn am ymateb gan Weinidogion Cymru. Rwyf wedi rhoi sylw i bob un o'r rhain isod.

**Dylai'r Gweinidog nodi'r amserlen ar gyfer cwblhau'r adolygiad sylfaenol o Gyfoeth Naturiol Cymru. Dylai'r Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor hwn am gynnydd yr adolygiad heb fod yn hwyrach na 3 mis ar ôl cyhoeddi'r Adroddiad hwn.**

Cyflwynodd CNC adroddiad cychwynnol i Lywodraeth Cymru ar ei weithgarwch sylfaenol a osodwyd yn erbyn ei gyllideb ym mis Tachwedd 2021. Rhaid imi dynnu sylw at y ffaith bod yr wybodaeth hon wedi dod yn dilyn trafodaethau i gytuno ar gyllideb 2022/23. Ers hynny, mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio gyda CNC i edrych ar y modd y dyrennir ei adnoddau yn erbyn ei swyddogaethau statudol ac ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu. Mae CNC, gan weithio ochr yn ochr â'm swyddogion, wedi cytuno i ddarparu rhagor o wybodaeth i'w hystyried erbyn diwedd mis Gorffennaf 2022. Mae hyn yn cynnwys y rhai sy'n ymwneud â Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021.

Yn dilyn hyn, byddaf yn cyfarfod ag Uwch Arweinwyr yn CNC i drafod sut y byddant yn dyrannu ei gyllid a'i adnoddau mewnol i gyflawni ei rwymedigaethau statudol tra'n cyflawni blaenoriaethau Gweinidogol ar gyfer gweddill tymor presennol y Llywodraeth o 1 Ebrill 2023. Mae hyn yn cynnwys adolygu unrhyw bwysau ariannol ynghyd â chyfleoedd ariannu ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru. Felly, rwy'n disgwyl y bydd yr adolygiad sylfaenol yn dod i ben cyn diwedd blwyddyn ariannol 2022/23.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod y cyllid ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru yn gymesur â'i rolau a'i gyfrifoldebau. Rydym yn disgwyl gweld cynnydd priodol yng nghyllid Cyfoeth Naturiol Cymru yn dilyn canlyniad yr adolygiad sylfaenol.**

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn yr egwyddor y dylai Cyfoeth Naturiol Cymru gael cyllid sy'n gymesur â'i rôl a'i gyfrifoldebau. Bydd unrhyw gynnydd yng nghyllid Cyfoeth Naturiol Cymru yn dibynnu ar ddarparu gwybodaeth gadarn cyn diwedd mis Gorffennaf 2022 a sicrwydd ynghylch lefel y gwasanaeth y bydd yn ei ddarparu i bobl Cymru.

**Dylai'r Gweinidog roi rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor am y trafodaethau y mae'n eu cael gyda Cyfoeth Naturiol Cymru ynghylch sut y gallai ei fodel ariannu newid yng ngoleuni'r adolygiad sylfaenol.**

Mae fy swyddogion yn gweithio gyda CNC i ystyried ei fodel ariannu a sut y gallem roi mwy o sicrwydd i CNC a thros gyfnod hirach. Er enghraifft, rydym yn ystyried y model ariannu sy'n sail i reolaeth Cyfoeth Naturiol Cymru o Ystâd Goetir Llywodraeth Cymru a sut y gallwn liniaru effaith anwadalrwydd yn y farchnad goed. Bydd yr opsiynau hyn yn cael eu cyflwyno i mi, ochr yn ochr â gwybodaeth am ddyraniad adnoddau Cyfoeth Naturiol Cymru, erbyn diwedd mis Gorffennaf 2022.

Yn gywir

Julie James

**Julie James AS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd